Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol T. Llew Jones
# Brynhoffnant
# Ceredigion
# SA44 6AE

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol T. Llew Jones

Lleolir Ysgol T Llew Jones ym mhentref Brynhoffnant, yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae 191 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol bedwar dosbarth oed sengl a thri dosbarth oed cymysg. Mae 17 disgybl meithrin rhan amser yn mynychu'r ysgol yn y boreau'n unig.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 12% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae tua 43% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 22% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, sydd yn debyg i'r ganran genedlaethol o 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2019 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2015.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd yn effeithiol ac maent yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol a'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) boddhaol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus.

Ar y cyfan, mae'r addysgu a'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu yn gadarn. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n ddiwyd a chydwybodol am eu disgyblion. Maent yn cynnig arweiniad a chymorth gwerthfawr iddyn nhw a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn glir a phwrpasol. Gyda chefnogaeth y llywodraethwyr, mae hi'n gweithredu cynlluniau datblygu effeithiol, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Monitro'r addysgu a'r arferion asesu yn drwyadl, i sicrhau bod athrawon yn herio'r holl ddisgyblion i berfformio ar eu gorau'n gyson

A2 Gwella medrau TGCh y disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Gwella'r ddarpariaeth i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae tua hanner y disgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy'n cyfateb i'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn cyflawni'n dda. Maent yn cyfathrebu yn y Saesneg yn huawdl, ac yn datblygu medrau rhifedd effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar a gwrando effeithiol, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu dysgu. Maent yn hyderus ar lafar, yn sgwrsio'n ddeallus ac yn gwrando'n astud ar eraill. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio cymariaethau yn effeithiol wrth ddisgrifio aelodau o'u teulu i'w gilydd. Mae medrau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dda, wrth iddynt ymhelaethu ar fywyd faciwî yn yr Ail Ryfel Byd ac erchylltra'r 'Blits' yn Abertawe.

Mae medrau darllen pwrpasol yn cael eu defnyddio gan lawer o ddisgyblion. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen ystod ddiddorol o destunau yn eglur. Maent yn deall cynnwys eu llyfrau'n dda ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn fwriadus, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig rheolaidd. Maent yn adnabod nodweddion cymeriadau cyfarwydd o'r Mabinogion, fel Branwen, yn ddeallus, gan ragfynegi'n synhwyrol beth sy'n digwydd nesaf yn ei bywyd. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn ynganu'n glir wrth ddarllen yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio'n ystyrlon ar y we, gan gynnwys effaith ysbwriel ar draeth Llangrannog a chanfod wybodaeth i greu ffeil ffeithiau ar Winston Churchill. O ganlyniad, maent yn defnyddio eu medrau darllen uwch i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o gyd-destunau a ffurfiau ysgrifennu yn bwrpasol i gyfleu eu barnau personol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu darnau diddorol yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys portread o fôr ladron dychmygus a disgrifiadau o dariannau marchogion, sy'n amddiffyn cestyll. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n ystyrlon yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn cynnwys adroddiadau ffeithiol ar yr awdur T Llew Jones, esboniadau ar sut i wneud hufen iâ, a deialog rhwng dau gymeriad yn y cwtsh dan stâr yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda mewn mathemateg ac yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth flaenorol mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion y cyfnod sylfaen, er enghraifft, yn creu pictogramau dibynadwy am eu hoff ddeinosoriaid, ar ôl cofnodi eu canfyddiadau'n gywir ar ricbren. Yn ogystal, maent yn adnabod a dilyn cyfarwyddiadau cwmpawd yn ddeallus i gyrraedd safle'r tacsi, y deintydd a'r siop deganau ar fap.

Mae gan lawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell i gymharu uchder dau bêl yn bownsio o uchderau gwahanol. Yn ogystal, maent yn ymchwilio i gostau yn bwrpasol wrth ddatrys problemau ynglŷn ag anawsterau dogni bwyd yng Ngheredigion yn y ganrif ddiwethaf. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflawni tasgau a chymhwyso'u medrau mathemategol a rhifedd estynedig yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn briodol, fel defnyddio llechi electronig i gywain gwybodaeth am wledd yng nghastell Aberteifi. Yn ogystal, maent yn defnyddio sgrîn werdd yn effeithiol i adlewyrchu taith o gwmpas Cymru a chreu basau data effeithlon i gywain gwybodaeth am eu hoff ffrwythau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o feddalwedd ac offer TGCh yn addas, fel creu ffilm ar y wyddor a chyflwyniad ar fywyd Anne Frank. Mae hyn yn ymestyn eu dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm yn foddhaol. Ar y cyfan , mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth dda o fanteision TGCh i gefnogi eu dysgu, a phwysigrwydd eu diogelwch ar-lein. Fodd bynnag, nid ydynt yn hyderus wrth ganfod gwaith blaenorol a sut i arbed eu gwaith yn fwriadus a threfnus i gefnogi'r camau nesaf yn eu dysgu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymfalchïo bod perthnasoedd agos a gofalgar yn bodoli rhyngddynt â'r staff. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gyda'r staff ac maent yn hyderus bod oedolion yn gwrando arnynt ac ymdrin â'u trallodau yn brydlon. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd eu diogelwch ar-lein, ac yn amlinellu'n huawdl y peryglon all godi yn sgîl defnydd anaddas o'r we.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ofalgar o'i gilydd ac yn cyfrannu'n frwd i weithdrefnau sy'n sicrhau bodlonrwydd eu cyfoedion. Er enghraifft, mae bron pob un disgybl yn deall pwrpas y 'Mainc Ffrindiau' yn dda. Maent yn trafod pwysigrwydd cynnig cymorth i'w gilydd yn ddeallus. Yn ogystal, maent yn barod iawn i ymateb i unrhyw dristwch neu ofidion ymhlith eu cyfoedion yn ddiffuant.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn meithrin agweddau da tuag at ddysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn ymroi i'w gwaith yn bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n fuddiol i drafodaethau dosbarth, yn cydweithio'n effeithiol ac yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill yn ystod gwersi. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, ar y buarth ac wrth iddynt gerdded o gwmpas yr adeilad. Maent yn gwrtais, yn foesgar, ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w gilydd ac i oedolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod eu lleisiau a'u barnau'n bwysig i athrawon ac i wella'u dysgu. Yn ddiweddar, er enghraifft, maent wedi cael cyfleoedd pwrpasol i gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol, sy'n symbylu eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r disgyblion yn wybodus am nodweddion gwledydd a diwylliannau eraill. Er enghraifft, maent yn trafod diwylliant Cymreig Patagonia yn eglur a chymharu eu bywydau nhw â phlant Lesotho yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn astudio a thrafod

yn synhwyrol y nodweddion a’r manylion perthnasol am grefyddau fel Hindŵaeth ac Iddewiaeth. Mae hyn yn ategu eu dealltwriaeth o faterion crefyddol, moesol a diwylliannol Cymru a’r byd ehangach.

Mae aelodau o bwyllgorau fel y cyngor ysgol, pwyllgor eco, arweinwyr digidol a’r llysgenhadon gwych yn cymryd eu dyletswyddau o ddifrif ac yn gweithredu’n gydwybodol. Maent yn ymfalchïo yn eu rolau yn fawr, gan eu bod wedi eu dewis trwy etholiad gan eu cyfoedion. O ganlyniad, mae’r pwyllgorau yn cydweithio’n effeithiol ac wedi llwyddo i godi arian trwy drefnu ‘beicathon’ yn yr ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion yn mynegi eu barnau a’u syniadau yn rheolaidd trwy ‘bocs syniadau’ yr ysgol a’r gwahanol grwpiau arweiniol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw’n iach. Maent yn esbonio’n glir fod bwyta diet cytbwys, yfed dŵr yn rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn elwa eu bywydau a’u cyrff yn gadarnhaol. Mae llawer yn manteisio ar fynychu clybiau’r ysgol a’r gweithgareddau sy’n cael eu trefnu gan y llysgenhadon gwych dros amser cinio. Mae hyn yn gwella eu medrau cymdeithasol a’u gallu i gydweithio â’u cyfoedion. Mae’r pwyllgor iach yn hyrwyddo bocsys bwyd iachus, diod synhwyrol a’r cyfle i fwyta ffrwythau a llysiau yn ystod amseroedd egwyl. Mae’r gweithgareddau hyn yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd lefelau uchel o ffitrwydd er lles eu cyrff.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod cyfrannu at fywydau pobl eraill a chefnogi unrhyw unigolyn anghenus yn bwysig i gymdeithas deg. O ganlyniad, maent yn codi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol ac yn cyfrannu at fanc bwyd lleol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod eu cyfraniadau pwrpasol, i’w cymuned a phobl eu hardal leol, yn creu cymdeithas ofalgar a chynhyrchiol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae’r athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau gwerthfawr sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r profiadau hyn yn adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn fwriadus, ac maent yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru a’u cynefin. Enghreifftiau da o hyn yw’r gweithgareddau i ddysgu am fywyd T Llew Jones a hanes y diwydiant gwlân lleol. Mae’r ysgol yn cyfoethogi’r profiadau hyn yn effeithiol trwy drefnu ymwelwyr i’r ysgol, gan gynnwys arlunwyr a beirdd lleol i greu celf a cherddi diddorol. Yn ogystal, maent yn trefnu teithiau cerdded ar hyd yr arfordir a chyfleoedd i ymchwilio ac ymholi ar draethau’r ardal. O ganlyniad i’r cwricwlwm ysgogol, mae’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o’u treftadaeth a’u milltir sgwâr.

Mae’r athrawon yn cyflwyno’r cwricwlwm yn hyderus. Maent yn defnyddio ystod bwrpasol o themâu creadigol, sy’n cynnwys ‘Pleidiol Wyf i’m Gwlad’ a ‘Byd y Sinema’, i ysgogi dysgu’r disgyblion yn dda. Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd addas i gyfrannu eu syniadau am gynnwys eu themâu. Mae hyn yn cryfhau eu parodrwydd i weithio’n brydlon a chynnal eu brwdfrydedd i ddysgu yn gynhyrchiol. Ar y cyfan, mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn cael eu gweithredu’n llwyddiannus tu mewn i’r adeilad.

Mae'r berthynas waith gynhaliol sydd yn bodoli ym mhob dosbarth yn meithrin parch a chwrteisi ac yn creu naws ddysgu gadarnhaol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y disgyblion maent yn eu cefnogi, sy'n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Yn ogystal, mae bron pob oedolyn yn modelu iaith raenus a chywir ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chywrain yn gyson. O ganlyniad, mae safonau iaith llawer o'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn defnyddio dulliau addysgu da, sydd yn effeithio'n bwrpasol ar safonau llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiol dechnegau holi yn llwyddiannus i ymestyn a datblygu ymhellach ymatebion disgyblion ac i ddarganfod yr hyn mae'r disgyblion yn ei ddeall am eu gwaith cyfredol. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn herio'r holl ddisgyblion i berfformio ar eu gorau'n gyson. Ar adegau, mae athrawon yn derbyn gwaith sydd yn is na gallu'r disgyblion, sydd yn amharu ar gynnydd unigolion.

Mae'r cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn fanwl a phwrpasol ac mae'n effeithio'n gadarn ar ddysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn sawl genres yn effeithiol ac i gymhwyso eu medrau mesur a phwyso yn ymarferol wrth goginio pice ar y maen ar gyfer ymwelwyr i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau TGCh yn llwyddiannus ar draws yr ysgol.

Mae asesiadau'r athrawon yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Mae athrawon yn cynnig adborth adeiladol i'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith, yn enwedig ar lafar. Maent yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau i gynllunio camau nesaf dysgu'r disgyblion yn briodol. Nid yw'r asesiadau dyddiol yn ddigon o gymorth i ddisgyblion adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, nid yw'r tasgau dilynol yn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallant yn eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae staff yr ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch, ac ymroddiad yn llwyddiannus. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn ymfalchïo yn eu cymuned a'r cyfleoedd amrywiol y maent yn eu derbyn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r trefniadau i olrhain cynnydd y disgyblion yn gadarn. Mae athrawon yn defnyddio canfyddiadau asesu'n ddeallus i fesur cynnydd disgyblion. Mae'r weithdrefn yn adnabod anghenion yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r athrawon yn trefnu cymorth bwriadus trwy weithgareddau penodol, fel sesiynau ffonig a mathemateg sylfaenol, sy'n llwyddo i wella cyflawniadau'r disgyblion yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r cymorthyddion yn cefnogi disgyblion yn ystyrlon mewn sesiynau ymyrraeth defnyddiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu targedau gwella personol.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn llwyddianus. Mae'r staff yn cydweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i adeiladu ar gryfderau'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth ofalgar a chynhwysol. Mae hyn yn datblygu lles a medrau cymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni ac mae'r staff yn gweithredu polisi drws agored ar eu cyfer. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ganddynt i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o ddigwyddiadau ac yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd eu plant. Mae'r staff yn darparu sesiynau hyfforddiant defnyddiol ar gyfer y rhieni i wella'u hymwybyddiaeth o weithdrefnau cyfoes y byd addysg, fel dulliau addysgu iaith i'w plant. O ganlyniad, mae gwell syniad gyda'r rhieni am sut i helpu eu plant ar yr aelwyd. Mae'r gymdeithas rhieni yn codi arian yn rheolaidd i gynorthwyo'r ysgol i brynu adnoddau gwerthfawr. Er enghraifft, maent newydd osod politwnel ar dir yr ysgol i dyfu llysiau, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion a meithrin eu gwerthoedd am gynaliadwyedd yn dda.

Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn cystadlu mewn eisteddfodau, perfformio mewn corau a darllen chwedlau'r Mabinogion. Trwy astudio themâu penodol, gwahodd ymwelwyr i'r ysgol, a chynnal wythnosau rhyngwladol, mae'r ysgol yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau a thraddodiadau gwledydd y byd. Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr i siarad am deithiau i Batagonia a Lesotho, ac maent yn cymharu Cymru gydag India a Tsieina yn ddeallus. Mae'r profiadau hyn yn helpu datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u gwlad a'i threftadaeth a chyfraniadau Cymru i'r byd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae'r staff yn annog disgyblion i gadw'n heini yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu gwersi ymarfer corff rheolaidd ac amrywiaeth buddiol o weithgareddau allgyrsiol, sy'n cynnwys cymryd rhan mewn cystadlaethau lleol, fel rasys trawsgwlad a chystadlaethau nofio.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn synhwyrol, ac i gydnabod a pharchu amrywiaeth. Maent yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu dinasyddiaeth gyfrifol ac i helpu eraill yn eu cymuned. Er enghraifft, maent yn cyfrannu i wasanaethau, eisteddfodau a gweithgareddau i godi arian at achosion da. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd eu hysgol a'u rôl fel unigolion tu mewn i'w milltir sgwâr.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi mireinio'r gweithdrefnau rheolaethol a oedd eisoes yn bodoli yn yr ysgol i adlewyrchu'r gofynion cyfredol. Mae ei gweledigaeth ar gyfer gwella'r ysgol yn bwrpasol. Mae amcanion strategol yr ysgol yn effeithiol, a chanddynt ffocws clir a phenodol ar wella'r ddarpariaeth, deilliannau'r disgyblion a mynd i'r afael â disgwyliadau cenedlaethol. Mae'r weledigaeth hon yn arwain at ethos gofalgar, diogel a chynhwysol ar draws yr ysgol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae'r pennaeth yn arwain y staff yn frwdfrydig ac yn annog awyrgylch hapus a theuluol. Mae'r athrawon yn cefnogi ei weledigaeth ac maent yn awyddus i sefydlu gwelliannau yn y ddarpariaeth er lles yr holl ddisgyblion. Er enghraifft, maent yn targedu gwelliannau ym medrau rhifedd disgyblion i gefnogi eu gallu i ddatrys problemau yn eu bywydau bob dydd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cynnig dechreuad cadarn i'r disgyblion, sy'n caniatáu iddynt lwyddo trwy ddatblygu ymhellach eu medrau a'u hagweddau at ddysgu.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cyson yn eu lle. Mae cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau hunanwerthuso a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae arweinwyr yn diffinio blaenoriaethau'n dda ac yn mesur cynnydd yn synhwyrol i adnabod agweddau sydd angen sylw pellach. Maent yn cynnwys targedau cenedlaethol, fel paratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, er bod arweinwyr yn cynllunio amserlen fanwl ar gyfer arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion, nid ydynt yn glynu at ofynion y cynllun yn drwyadl. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr yn monitro agweddau pwysig o'r addysgu sydd angen eu gwella neu gynnig adborth adeiladol i athrawon i wella'u harferion ymhellach.

Mae'r llywodraethwyr yn cynnig arweiniad bwriadus ac yn gosod her synhwyrol i'r ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol i werthuso effaith mentrau ar ddeilliannau'r disgyblion yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn trafod yn hyderus y gwelliannau diweddar yng nghyfraniadau'r disgyblion i fywyd y gymuned leol. Maent yn monitro gwariant ac effeithiolrwydd adnoddau yn ddeallus, sy'n cynnwys defnydd da o unrhyw warged i gynnal darpariaeth gynhwysol ar draws yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n dda at fywyd a llwyddiant yr ysgol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad fel ffrindiau beirniadol.

Mae strwythur staffio clir gan yr ysgol ac mae disgwyliadau pob rôl wedi eu diffinio'n gywrain yn erbyn cyfrifoldebau penodol. Mae trefniadau cyfarfodydd staff yn sefydlog ac yn creu rhwydwaith o gyfathrebu effeithiol, sy'n creu ffocws pwrpasol ar wella deilliannau'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn amserlennu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn ddoeth ac mae gweithdrefnau effeithiol yn bodoli ar gyfer rheoli perfformiad athrawon. Mae targedau'r athrawon wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol, ac yn mynd i'r afael yn llwyddiannus ag anghenion datblygiad personol y staff. Er enghraifft, ar hyn o bryd, maent yn ymdrechu i dargedu gwelliannau yn sillafu'r disgyblion yn ystod gwersi.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn ffocysu'n dda ar ddefnyddio'r holl adeilad i gefnogi dysgu a chynnydd y disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio ystafell synhwyraidd i dargedu anghenion penodol disgyblion bregus yn dda. Fodd bynnag, mae diffyg yn y ddarpariaeth awyr agored yn y cyfnod sylfaen. Nid yw'r adnoddau yn yr ardal allanol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn ddigon llwyddiannus i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol i ddatblygu'r ddarpariaeth a gwella'r deilliannau yn cael eu defnyddio'n dda. Mae'r gwariant yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac mae'r monitro trylwyr o'r cyllid yn effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Enghraifft lwyddiannus yw cyllido profiadau dysgu oddi ar safle'r ysgol, sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion, fel ymweliadau preswyl i ganolfannau addysgol ac anturus.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2020